



# monmouthshire sir fynwy

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r

Gymraeg Cyngor Sir Fynwy

1af Ebrill 2022 - 31ain Mawrth 2023



## Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Fynwy ar safonau'r Gymraeg. Ei ddiben yw gwerthuso ein cydymffurfiad â'r safonau, a'r ffyrdd yr ydym wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y flwyddyn. Fe'i lluniwyd yn unol ag Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, i fodloni gofynion safonau 158, 164 a 170.

## Gwybodaeth Bellach

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Sir Fynwy: [www.monmouthshire.gov.uk/cy](http://www.monmouthshire.gov.uk/cy).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni ar y manylion isod.

Nia Roberts

Swyddog y Gymraeg

Polisi, Perfformiad a Chraffu

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA

Rhif Ffôn: 01633 644010

E-bost: [niaroberts@monmouthshire.gov.uk](mailto:niaroberts@monmouthshire.gov.uk)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg, ni fydd cysylltu â ni yn Gymraeg yn arwain at oedi mewn ymateb.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Dogfennau Cysylltiedig

[Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd Cyngor Sir Fynwy 2022-2027](#)

Yr aelod cabinet gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn ystod 2022/23 oedd y Cyng. Tudor Thomas.

## *Cynnwys*

|  |           |
|--|-----------|
| <i>1. Cefndir</i>                      | <i>4</i>  |
| <i>2. Cydymffurfiad</i>                | <i>5</i>  |
| • <i>Safonau Cyflenwi Gwasanaethau</i> | <i>5</i>  |
| • <i>Safonau Llunio Polisi</i>         | <i>8</i>  |
| • <i>Safonau Gweithredu</i>            | <i>9</i>  |
| <i>3. Cwynion</i>                      | <i>11</i> |
| <i>4. Sgiliau Iaith Gymraeg</i>        | <i>12</i> |
| <i>5. Cyrsiau Cymraeg</i>              | <i>14</i> |
| <i>6. Recriwtio</i>                    | <i>15</i> |
| <i>7. Gwasanaeth Cwsmer</i>            | <i>16</i> |
| <i>8. Hyrwyddo</i>                     | <i>17</i> |
| <i>9. Casgliad</i>                     | <i>19</i> |

## 1. Cefndir

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg fel rhan greiddiol o'n hunaniaeth ddiwyllianol, treftadaeth a chydlyniant cymunedol. Drwy gydol y flwyddyn 2022/2023 mae'r cyngor wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle gall y Gymraeg ffynnu a lle gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol sydd yn gosod dyletswydd ar Gyngor Sir Fynwy, ochr yn ochr â sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Safonau'n ymwneud â'r Gymraeg. Egwyddorion allweddol y safonau hyn yw:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- dylem hybu a hwyluso defnydd o'r iaith.

Yn 2015 derbyniodd Cyngor Sir Fynwy hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r safonau y mae'n rhaid i'r cyngor gydymffurfio â nhw.

Mae cyfanswm o 176 o safonau sy'n berthnasol i Gyngor Sir Fynwy. Mae'r safonau hyn wedi'u grwpio i 5 categori, sef:

- Cyflenwi Gwasanaethau;
- Llunio Polisi;
- Gweithredu;
- Hybu;
- Cadw Cofnodion.

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- Cynhyrchu a chyhoeddi ar ein gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn ein hardal. (Safonau 145,146)
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau a chyhoeddi hwn ar ein gwefan. (Standards 158, 164, 170)

Mae [hysbysiad cydymffurfio'r cyngor](#) i'w weld ar ein gwefan ddwyieithog.

## 2. Cydymffurfiad

### Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

| <b>Grŵp Safonau</b>   | <b>Camau a Gymerwyd yn Ystod 2022/2023</b>   | <b>Camau i'w Cymryd 2023/2024</b>   |
|---|--|---|
| Safonau 1 - 7 Gohebiaeth a ddanfonwyd ac a dderbyniwyd.                                 | <ul style="list-style-type: none"> <li>Anfonwyd nodiadau atgoffa i staff am ein gofynion i'r Safonau'r Gymraeg wrth anfon gohebiaeth.</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i fonitro gohebiaeth.</li> </ul>  |
| Safonau 8 - 22 Galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd.                                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhawyd cydymffurfiad gyda symud systemau ffôn i 'Microsoft Teams Calling'.</li> <li>Negeseuon peiriant ateb ar gyfer pob adran wedi'w recordio'n ddwyieithog.</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau pan dderbynnir galwadau ffôn Cymraeg.</li> <li>Symud Canolfan Gyswllt y Cyngor i ddatrysiaid newydd a fydd yn gwella'r gwasanaeth Gymraeg.</li> </ul> |
| Safonau 24 - 36 Cyfarfodydd gyda'r Cyhoedd.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus lle bo angen.</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro i sicrhau bod y cynnig o gyfieithu ar y pryd yn parhau i gael ei wneud.</li> </ul>   |
| Safonau 37 - 51, 69 - 70 Dogfennau dwyieithog eraill.                                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Atgoffwyd staff o'r angen i ddatgan ar ddogfennau eu bod hefyd ar gael yn y Gymraeg.</li> <li>Crëir pob ffurflen gais at ddefnydd y cyhoedd yn ddwyieithog ac atgoffir staff o'r gofyniad hwn.</li> <li>Mae'r holl hysbysiadau swyddogol yn cael eu cynhyrchu a'u harddangos yn ddwyieithog.</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i fonitro cydymffurfiaeth yn agos.</li> </ul>   |
| Safonau 52 - 60 Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol, Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Sir Fynwy yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> <li>Nodwyd materion ar wefan MonLife a derbyniwyd cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg (Gweler yr adran gwynion). Gwaith wedi'w gwblhau i sicrhau bod yr holl dudalennau cyfredol yn cydymffurfio a phroses yn cael ei chreu ar gyfer tudalennau newydd.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i fonitro pob gwefan a chyfrif cyfryngau cymdeithasol.</li> <li>Creu log o unrhyw faterion a nodwyd ac unrhyw gamau a gymerwyd i'w datrys.</li> </ul>   |

|  |  |  |
|--|--|--|
| <p>Safonau 52 - 60 Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol, Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth.</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithiodd y Swyddog Iaith Gymraeg yn agos gyda Swyddog y Wefan i sicrhau bod tudalennau gwefan Sir Fynwy yn cydymffurfio â'r safonau.</li> <li>• Cysylltodd Swyddog y Gymraeg ag awduron gwefannau i adolygu a yw eu holl dudalennau gwe yn cydymffurfio.</li> <li>• Mae'r canlynol yn ddata ynghylch ymweliadau ar y tudalennau Saesneg (S) a'r Gymraeg (C):</li> <li>• Ailgylchu a Gwastraff: (S) 108,156. (C) 262.</li> <li>• Treth y Cyngor: (S) 60,862. (C)147.</li> <li>• Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant ac Ysgolion (S) 2,780. (C) 33</li> <li>• Addysg Cyfrwng Gymraeg (S) 315. (C) 39 .</li> <li>• Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd: (S) 21,692. (C) 99.</li> </ul> |  |
| <p>Safonau 61 - 63 Arwyddion.</p>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob arwydd stryd newydd naill ai'n ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg. Dewisir enwau yn ofalus i adlewyrchu hanes a threftadaeth yr ardal. Mae Swyddog y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Enwi Strydoedd i helpu gyda'r broses hon.</li> <li>• Cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro drwy'r holl arwyddion o fewn yr awdurdod.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro cydymffurfiaeth.</li> </ul> |

|  |   |   |
|--|---|---|
| Safonau 64 - 68 Gwasanaethau'r Dderbynfa.            | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyniadau ar draws yr awdurdod yn cael eu monitro i sicrhau bod posteri Cymraeg yn cael eu harddangos i ddangos y gellir defnyddio'r Gymraeg.</li> <li>• Sgiliau Cymraeg yn cael eu hasesu yn ystod cyfweiliadau ar gyfer rolau derbynfa.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro derbynfeydd ar draws yr awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>   |
| Safonau 71 - 75 Rhoi Grantiau.                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Cyngor bolisi ar gyfer 'Dyfarnu Grantiau a'r Iaith Gymraeg'.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>  |
| Safonau 76 - 80 Rhoi Cytundebau.                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhestr wirio wedi'w chreu ar gyfer Gofynion Iaith Gymraeg - Caffael.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>  |
| Safonau 81 - 82 Hyrwyddo Gwasanaethau Iaith Gymraeg. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddir gwasanaethau Cymraeg ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.</li> <li>• Postiadau cyfryngau cymdeithasol wedi'u greu ar gyfer 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg' i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y cyngor.</li> </ul>               | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn parhau i gael eu hyrwyddo.</li> <li>• Trefnu hyrwyddiadau ar gyfer digwyddiadau / dyddiadau allweddol.</li> </ul> |
| Safon 83 Hunaniaeth Gorfforaethol.                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pob agwedd ar hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>  |
| Safonau 84 a 86 Cyrsiau Addysgol.                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym yn asesu cyrsiau addysgol i benderfynu a oes angen eu cyflwyno yn Gymraeg.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>  |
| Safon 87 Systemau Cyhoeddiadau Cyhoeddus.            | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob system annerch cyhoeddus yn ddwyieithog.</li> <li>• Monitro cydymffurfiaeth drwy ymweliadau.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> <li>• Sicrhau bod unrhyw systemau annerch cyhoeddus newydd yn parhau i fod yn ddwyieithog.</li> </ul>  |

## Safonau Llunio Polisi

| <b>Grŵp Safonau</b>              | <b>Camau a Gymerwyd yn Ystod 2022/2023</b>   | <b>Camau i'w Cymryd 2023/2024</b>   |
|----------------------------------|--|---|
| Standards 88 - 93 Llunio Polisi. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dilyn cwyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg CS112. (Gweler yr adran Cwynion am fanylion pellach). Ailaseswyd ein prosesau ar gyfer Llunio Polisi.</li> <li>• Diwygio'r Aseiad Effaith Integredig a gynhyrchir i gyd-fynd â'r holl benderfyniadau polisi a wneir gan y Cyngor, y Cabinet neu aelodau unigol o'r cabinet.</li> <li>• Cryfhau'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer pob Aseiad Effaith Integredig i sicrhau bod unrhyw gwestiynau nad ydynt wedi'u hateb yn ddigon manwl yn cael eu dychwelyd i awdur yr adroddiad i'w hadolygu cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.</li> <li>• Darparwyd hyfforddiant i gynghorwyr ym mis Mehefin 2022.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd hyfforddiant dilynol yn parhau i fod ar gael i swyddogion y nodwyd bod ei angen arnynt yn ystod y broses o sicrhau ansawdd asesiadau effaith.</li> <li>• Bydd cyfarfodydd sicrhau ansawdd yn parhau.</li> </ul> |



## Safonau Gweithredu

| <i>Grŵp Safonau</i>                                | <i>Camau a Gymerwyd yn Ystod 2022/2023</i>   | <i>Camau i'w Cymryd 2023/2024</i>   |
|--|--|---|
| Safonau 99 – 104 Dogfennau Cyflogaeth.             | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Dogfennau AD ar gael yn ddwyieithog.</li> <li>Atgoffir staff ar Sianel Teams Cymraeg y gallant gyrchu dogfennau AD yn Gymraeg.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>  |
| Safonau 105 – 111 Polisiâu Adnoddau Dynol.         | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae polisiâu AD ar gael yn ddwyieithog ar fewnrwyd y staff.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>  |
| Safonau 112 – 119 Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwneir staff yn ymwybodol o'u hawl i gwblhau'r broses gwyno / disgyblu yn Gymraeg.</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnig.</li> </ul>   |
| Safonau 120 - 126 Mewnrwyd y Staff ac Adnoddau TG. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Meddalwedd gwirio sillafu Cymraeg wedi'i osod ar bob cyfrifiadur.</li> <li>Diweddarwyd y dudalen Gymraeg ar y fewnrwyd.</li> </ul>            | <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod yr holl ddogfennau ar dudalen fewnrwyd yr Iaith Gymraeg yn cael eu diweddarau a bod staff yn cael eu hatgoffa o ble y gallant gael gafael arnynt.</li> </ul> |
| Safon 127 Sgiliau Iaith Staff.                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweler yr adran Sgiliau Iaith Staff.</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu'r nifer o staff sy'n adrodd am eu sgiliau Cymraeg trwy integreiddio hyn i'r hyfforddiant gorfodol Cymraeg.</li> </ul>  |
| Safonau 128 - 133 Hyfforddi Staff.                 | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweler yr adran Sgiliau Iaith Staff.</li> <li>Cofrestrodd 32 aelod o staff ar gyr-siau Cymraeg.</li> </ul>                                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i hyrwyddo cyrsiau a hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael i staff.</li> </ul>  |

|  |  |   |
|--|--|---|
| <p>Safonau 134 - 135 Geiriad a Logo ar Gyfer Llofnod E-byst Staff.</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan bob aelod o staff fynediad i'r gwasanaeth cyfieithu ar gyfer llofnodion e-bost ac mae rheolwyr llinell yn atgoffa eu staff yn rheolaidd o'r gofyniad hwn.</li> <li>• Mae llofnodion e-bost staff yn cael eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> <li>• Mae'r logo 'Iaith Gwaith' ar gael ar fewnrwyd y staff yn ogystal â Sianel Teams Cymraeg i staff ei gynnwys yn eu llofnodion e-bost.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> <li>• Defnyddio Sianel Teams Cymraeg i rannu gwybodaeth berthnasol gyda staff sy'n siarad Cymraeg.</li> </ul>  |
| <p>Safonau 136 - 140 Y Broses Recriwtio.</p>                           | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweler yr adran ar 'Recriwtio'.</li> <li>• Mae'r cyngor yn nodi bod bob swydd newydd fel o leiaf Cymraeg yn ddymunol.</li> <li>• Mae pob hysbyseb swydd yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog ac yn cynnwys y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ac asesiad iaith Gymraeg.</li> <li>• Swyddog Iaith Gymraeg yn monitro hysbysebion swyddi newydd i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> <li>• Pob rôl yr aseswyd ei bod yn Gymraeg yn Hanfodol a rhai eraill sydd yn Gymraeg yn Ddymunol yn cael eu hysbysebu ar safleoedd recriwtio Cymraeg sydd wedi gweld llwyddiant o ran denu siaradwyr Cymraeg i ymgeisio.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> <li>• Parhau i wneud defnydd o safleoedd recriwtio Cymraeg. Swyddog y Gymraeg i fonitro canlyniadau'r hysbysebion hyn.</li> <li>• Darparu'r lefelau sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer rolau Cymraeg yn Hanfodol er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ymgeiswyr.</li> </ul> |
| <p>Safonau 141 - 143 Arwyddion Mewnol.</p>                             | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi arweiniad i staff ynghylch arwyddion mewnol.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>  |
| <p>Safon 144 Cyhoeddiadau yn y Gweithle.</p>                           | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Recordiwyd pob cyhoeddiad yn ddwyieithog.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.</li> </ul>  |

### 3. Cwynion

#### Cwynion gan y Cyhoedd

- Ym mis Medi 2022 derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag arwyddion wrth i chi ddod i mewn i 'Llanelli Hill' o'r ddau gyfeiriad. Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r enw Cymraeg a ddefnyddiwyd ar gyfer pentref 'Llanelli Hill' sef 'Bryn Llanelli'. Roedd hon hefyd yn gŵyn a gawsom gan Gomisiynydd y Gymraeg, gweler CS1049 am ragor o fanylion.
- Ym mis Chwefror 2023 derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag arwyddion i Devauden yn cyfeirio at y dref fel 'Devauden' yn unig a dim ffurf Gymraeg. Gyrrwyd ymateb yn nodi ein bod yn defnyddio 'Rhestr Enwau Lleoedd Safonol' Comisiynydd y Gymraeg wrth greu ein harwyddion. Y ffurf safonol a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg yw 'Devauden' yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae [Rhestr Enwau Lleoedd Safonol Comisiynydd y Gymraeg](#) i'w gweld ar Wefan y Comisiynydd.

#### Cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg

**CS112** -Wedi'i Gwblhau – Roedd hon yn gŵyn barhaus o'r cyfnod 2021–2022 yn ymwneud â'n proses llunio polisi mewn perthynas â pholisi Enwi a Rhifo Strydoedd Sir Fynwy. Rhoddwyd 15 o gamau gorfodi i'r awdurdod gan y Comisiynydd a gwblhawyd yn llwyddiannus.

Gallwch ddarllen datganiad [Comisiynydd y Gymraeg yma](#).

**CS1018** - Wedi'i Gwblhau - Arwydd ffordd uniaith Saesneg ar gyfer y Fenni. Ymateb wedi ei roi i Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r arwydd ffordd ac nid Cyngor Sir Fynwy.

**CS1049** - Wedi'i Gwblhau - Roedd dwy ran i'r gŵyn hon.

- Arwydd ffordd Llanelli Hill - Mae'r arwydd hwn ar ffordd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gynnal gan Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (ACDC) ac felly ni chafodd ei osod gan Gyngor Sir Fynwy.
- Arwyddion Llanelli Hill wrth ddod i mewn i'r pentref o'r ddau gyfeiriad – roedd yr arwyddion yn cyfeirio at Llanelli Hill yn Gymraeg fel Bryn Llanelli. Yr enw safonol a awgrymir ar restr enwau lleoedd safonol Comisiynydd y Gymraeg yw 'Llanelli Hill' yn Gymraeg. Gan fod yr arwydd hwn wedi ei godi gan y Cyngor Cymuned, nid cyfrifoldeb Cyngor Sir Fynwy oedd yr arwydd hwn.

Bydd Sir Fynwy yn gweithio gyda thîm ymchwil Comisiynydd y Gymraeg i adolygu beth fyddai'r enw safonol mwyaf priodol ar gyfer Llanelli Hill.

**CS1103** - Wedi'i Gwblhau - Cwyn yn ymwneud â gwefan MonLife a bod y rhan fwyaf o'r tudalennau ar gael yn Saesneg yn unig a bod yn rhaid i chi wirio fersiwn Saesneg y wefan i wirio gwybodaeth bwysig. Roedd materion gyda gwefan MonLife wedi'u nodi gan y Swyddog Iaith Gymraeg cyn derbyn y gŵyn hon ac roedd camau gweithredu ei-soes yn eu lle i ddatrys problemau. Bu Sir Fynwy yn gweithio gydag arbenigwr mewn Iaith Gymraeg a chyfieithydd trydydd parti i sicrhau cydymffurfiaeth â'r wefan.

## 4. Sgiliau Iaith Gymraeg

Er mwyn diweddarau ein cofnodion o sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithlu, dosbarthwyd arolwg sgiliau Cymraeg i staff. Anfonwyd yr arolwg sgiliau hwn trwy e-bost i bob aelod o staff yn ogystal ag e-bost i bob rheolwr lle gofynnwyd i reolwyr sicrhau bod eu staff yn cwblhau'r arolwg, beth bynnag fo'u lefelau sgiliau. Derbyniwyd 485 o ymatebion i'r arolwg hwn allan o oddeutu 2,419 aelod o staff. Rydym yn bwriadu anfon yr un arolwg allan yn y flwyddyn ariannol nesaf gyda'r bwriad o geisio gwella'r gyfradd ymateb hon. Pan fydd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei symud i feddalwedd newydd, bydd hyn hefyd yn ein galluogi i gasglu'r data hwn pan fydd staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.

### Sgiliau Iaith Gymraeg a Adroddwyd

| Sgiliau Cymraeg   | Nifer | %   |
|---|-------|-----|
| Sgwrs Sylfaenol (bore da, prynhawn da, sut wyt ti)                    | 209   | 43% |
| Sgwrs Rugl/ Ffurfiol (sgyrsiau dwy ffordd mewn cyfarfod proffesiynol) | 29    | 6%  |
| Dim Sgiliau   | 207   | 43% |
| Sgwrs Gymdeithasol (sefydlu o ble maen nhw'n dod ac ati)              | 40    | 8%  |
| Cyfanswm Terfynol   | 485   |     |

### Siaradwyr Rhugl fesul Cyfarwyddiaeth

|                              |    |     |
|------------------------------|----|-----|
| Prif Weithredwyr             | 7  | 24% |
| Plant a Phobl Ifanc          | 4  | 14% |
| Ysgolion                     | 3  | 10% |
| Cymunedau a Lle              | 3  | 10% |
| Monlife                      | 1  | 3%  |
| Pobl a Llywodraethiant       | 1  | 3%  |
| Adnoddau                     | 1  | 3%  |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | 9  | 31% |
| Cyfanswm Terfynol            | 29 |     |

### Siaradwyr sy'n gallu cael sgwrs gymdeithasol fesul Cyfarwyddiaeth

|                              |    |     |
|------------------------------|----|-----|
| Prif Weithredwyr             | 4  | 10% |
| Cymunedau                    | 1  | 3%  |
| Plant a Phobl Ifanc          | 4  | 10% |
| Ysgolion                     | 2  | 5%  |
| Cymunedau a Lle              | 9  | 23% |
| Monlife                      | 7  | 18% |
| Pobl a Llywodraethiant       | 1  | 3%  |
| Adnoddau                     | 2  | 5%  |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | 10 | 25% |
| Cyfanswm Terfynol            | 40 |     |

*Lefel uchaf y cwrs a gwblhawyd gan ddysgwyr*

|               |    |
|---------------|----|
| Mynediad      | 55 |
| Sylfaen       | 16 |
| Canolradd     | 10 |
| Uwch          | 3  |
| Gloywi        | 1  |
| Duolingo/SSiW | 48 |

## 5. Cyrsiau Cymraeg

Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o gyrsiau iaith Gymraeg i staff ar bob lefel o ddysgu. Nod y cyrsiau hyn yw cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn yr awdurdod yn ogystal â chynyddu hyder fel bod staff yn teimlo'n fwy cyfforddus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Hwylusir cyrsiau drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac fe'u cyflwynir trwy Goleg Gwent. Ariennir yr holl gyrsiau Cymraeg yn llawn drwy Adran y Gymraeg.

Ym mlwyddyn 2022/2023 mae nifer y staff a fynychodd cyrsiau Cymraeg ar y lefelau perthnasol fel a ganlyn:

| <i>Lefel Iaith y Cwrs</i> | <i>Nifer y Staff a Gofrestrwyd<br/>2021/2022</i> | <i>Nifer y Staff a Gofrestrwyd<br/>2022/2023</i> |
|---------------------------|--|--|
| Mynediad / Entry          | 9  | 23   |
| Sylfaen / Foundation      | 4  | 3  |
| Canolradd / Intermediate  | 5  | 4  |
| Uwch / Advanced           | 1  | 1  |
| Hyfedredd / Proficiency   | 0  | 1  |
| <i>Cyfanswm</i>           | <i>19</i>  | <i>32</i>  |

Mae Safon 128 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli Perfformiad;
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Ymsefydlu;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

Gofynnir i staff a hoffent dderbyn yr hyfforddiant hwn yn Gymraeg.

Rydym wedi bod yn defnyddio ein Grŵp Teams Cymraeg newydd i atgoffa staff eu bod yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant uchod trwy gyfrwng Gymraeg.

## 6. Recriwtio

Mae'r broses ymgeisio am swydd ar gael yn Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg ac mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog. Fel rhan o'r broses recriwtio, ac un o ofynion Safon 136, rhaid asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd wag. Mae'r cyngor yn rhoi pob swydd wag newydd fel y Gymraeg yn ddymunol o leiaf.

### Swyddi wedi'u hysbysebu ar gyfer 2022-2023

|  | 2021-22 | 2022-2023 |
|--|---------|-----------|
| Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd   | 1011    | 781       |
| Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd oedd â sgiliau yn y Gymraeg yn 'hanfodol'   | 2       | 6         |
| Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd oedd â sgiliau yn y Gymraeg yn 'ddymunol'   | 1009    | 775       |
| Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a gafodd eu nodi fel swyddi lle mae 'angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd' | 0       | 0         |
| Nifer y swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd 'nad oedd angen sgiliau yn y Gymraeg'   | 0       | 0         |
| Nifer y swyddi nad oedd yn cynnwys asesiad   | 0       | 0         |
| Nifer y swyddi heb eu nodi   | 0       | 0         |

### Swyddi wedi'u hysbysebu ar gyfer ysgolion ar gyfer 2022 - 2023

|   | 2021-22 | 2022-2023 |
|---|---------|-----------|
| Swyddi gwag/newydd <b>mewn ysgolion</b> a hysbysebwyd   | 91      | 108       |
| Swyddi gwag/newydd <b>mewn ysgolion</b> a hysbysebwyd oedd â sgiliau yn y Gymraeg yn 'hanfodol'   | 20      | 29        |
| Swyddi gwag/newydd <b>mewn ysgolion</b> a hysbysebwyd oedd â 'sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.   | 71      | 79        |
| Swyddi gwag/newydd <b>mewn ysgolion</b> a hysbysebwyd a gafodd eu nodi fel swyddi lle mae 'angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd' | 0       | 0         |
| Nifer y swyddi gwag / newydd <b>mewn ysgolion</b> a hysbysebwyd 'nad oedd angen sgiliau yn y Gymraeg'   | 0       | 0         |
| Nifer y swyddi nad oedd yn cynnwys asesiad  | 0       | 0         |
| Nifer y swyddi heb eu nodi  | 0       | 0         |

## 7. Gwasanaeth Cwsmer

### Galwadau Ffôn Cymraeg

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 bu 51 o alwadau i'r llinell Gymraeg. Mae hyn yn ostyngiad ers y llynedd lle dderbyniwyd 80 o alwadau ffôn ar y llinell Gymraeg. Mae'r gostyngiad hwn yn debygol o fod oherwydd problemau cychwynnol pan ymfudodd y grŵp chwilota'r llinell Gymraeg i Teams teleffoni am y tro cyntaf. Roedd galwadau ffôn yn cael eu dargyfeirio'n gynamserol yn awtomatig i'r peiriant ateb heb ffonio ffonau swyddogion yn gyntaf. Mae'r mater hwn bellach wedi'i ddatrys ac mae galwadau ffôn yn cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes aelod o staff ar gael, gall y galwr adael neges peiriant ateb. Mae blwch post peiriant ateb y llinell Gymraeg yn cael ei fonitro'n agos gan y Swyddog y Gymraeg drwy gydol y dydd i sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg yn profi unrhyw oedi wrth gysylltu â'r Cyngor yn Gymraeg.

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi dadansoddiad o natur yr ymholiadau fesul adran.

|                                 |    |
|---------------------------------|----|
| Ailgylchu a Gwastraff           | 17 |
| Tîm Cyfathrebu                  | 5  |
| Treth y Cyngor/cyfraddau/cyllid | 4  |
| Adnoddau Dynol                  | 3  |
| Plant a Phobl Ifanc/Addysg      | 3  |
| Etholiadau                      | 2  |
| Grass Routes/Cludiant Teithwyr  | 2  |
| Gofal Cymdeithasol              | 2  |
| Trwyddedu                       | 1  |
| Cynllunio                       | 2  |
| Iechyd yr Amgylchedd            | 1  |
| Priffyrdd                       | 4  |
| Swyddog y Gymraeg               | 4  |
| Cefn Gwlad                      | 1  |
| Cyfanswm                        | 51 |

Yn ogystal â theleffoni, mae gennym Ap cwbl ddwyieithog 'Fy Sir Fynwy' lle gall cwsmeriaid wneud taliadau, adrodd am ddigwyddiadau a gofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Mae gennym ni hefyd sgwrsfot cwbl ddwyieithog fel bod cwsmeriaid yn gallu cael cymorth yn Gymraeg 24/7. Mae staff yn monitro'r sgwrsfot yn ystod oriau agor y swyddfa i helpu cwsmeriaid gydag unrhyw ymholiadau nad yw'r sgwrsfot yn gallu eu hateb.



## 8. Hyrwyddo

### Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg

Mae Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn disgyn ar y 7fed o Ragfyr ac yn nodi'r diwrnod y cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ei basio yn y senedd. Mae'n gyfle i ni hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg. Y canlynol yw rhai o'r postiadau a grëwyd ar gyfer ein cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r gwahanol ffyrdd y gall cwsmeriaid gael mynediad i'n gwasanaethau yn Gymraeg.



**DIWRNOD HAWLIAU'R GYMRAEG**  
**WELSH LANGUAGE RIGHTS DAY**

"Gyda fi, mae gennych chi hawl i...  
"With me you have the right to..."

*...ddefnyddio'r Gymraeg pan rydych yn ymweld â'r Hwb Cymunedol"*  
*...use Welsh when you visit the Community Hub"*

"Mae'n bwysig iawn i mi fod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan maen nhw'n dod i ymweld â ni yn yr Hyb Cymunedol yn Nhrefynwy. Rydw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers rhai blyneddau bellach a dwi wrth fy modd cael y cyfle i'w ddefnyddio gyda'n cwsmeriaid." - **Gill Hughes, Cynorthwydd Gwybodaeth**  
"It is very important to me that people can use the Welsh Language when they come and visit us in the Community Hub in Monmouth. I have been learning Welsh for a few years now and I love that I get the opportunity to use it with our customers."  
- **Gill Hughes, Information Assistant**

monmouthshire sir fynyw **#MAEGENIHAWL**

**DIWRNOD HAWLIAU'R GYMRAEG**  
**WELSH LANGUAGE RIGHTS DAY**

"Gyda fi, mae gennych chi hawl i...  
"With me you have the right to..."

*...gael asesiad integredig oedolyn yn Gymraeg"*  
*... have an adult integrated assessment in Welsh".*

"Mae'r gallu i gynnig asesiad yn y Gymraeg yn bwysig i mi a'r bobl dwi'n gweithio efo oherwydd mae'n rhoi cyfle i bobl siarad yn yr iaith gyntaf ac/neu yn yr iaith sy'n bwysig iddyn nhw. Hefyd, i mi mae'n bwysig i barhau a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar hyd y sir a gwlad ble yn bosib." - **Kate Stevens, Gweithiwr Cymdeithasol**  
The ability to offer an assessment in Welsh is important to me and the people I work with because it gives people the opportunity to speak in their first language and/or in the language that is important to them. Also, for me it is important to continue and promote the Welsh language throughout the county and country where possible." - **Kate Stevens, Social Worker**

monmouthshire sir fynyw **#MAEGENIHAWL**



**DIWRNOD HAWLIAU'R GYMRAEG**  
**WELSH LANGUAGE RIGHTS DAY**

"Gyda fi, mae gennych chi hawl i...  
"With me you have the right to..."

*... drafod materion ynglŷn â'r Gymraeg yn Sir Fynwy drwy'r Gymraeg"*  
*...discuss issues about the Welsh Language in Monmouthshire in Welsh"*

"Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i mi. Fel swyddog y Gymraeg rwyf yn gweithio i hyrwyddo'r iaith yn y Sir ac i wneud yn siŵr ei'n bod fel awdurdod lleol yn gwneud popeth y gallwn i dyfu'r iaith yn Sir Fynwy ac i wneud yn siŵr fod yr iaith yn cael y parch mae yn ei haeddu. Felly, mae gweithio gyda phobl Sir Fynwy yn ei iaith o ddewis yn hanfodol i wneud yn siŵr ei'n bod yn gallu cyflawni hyn." - **Nia Roberts, Swyddog y Gymraeg**  
"The Welsh language is very important to me. As the Welsh language officer for Monmouthshire, I work to promote the language in the County and to make sure that as a local authority we do everything we can to make sure that the language gets the respect it deserves. Working with the people of Monmouthshire in their language of choice is essential to make sure we can achieve this." - **Nia Roberts, Welsh Language Officer**

monmouthshire sir fynyw **#MAEGENIHAWL**

## Diwrnod Shwmae Su'mae Day

Dethlir Diwrnod Shwmae ar y 15fed o Hydref. Pwrpas y diwrnod hwn yw hybu'r syniad o ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg. Ei nod yw dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, boed yn ddysgwr neu'n siaradwr Cymraeg rhugl.

I ddathlu'r diwrnod bu Swyddog y Gymraeg yn cyflwyno yn y Cwtsh Digidol, sef sesiwn ffrwd fyw i staff yn trafod pynciau amrywiol. Yn y sesiwn hon, hysbyswyd y staff am ddiben y diwrnod ac fe'u hanogwyd i gymryd rhan. Atgoffwyd y staff hefyd o'n cyfrifoldebau o ran y Gymraeg, a chawsant wybod pa gymorth y gallent ei dderbyn ynglŷn â'r iaith.

Trefnwyd digwyddiad hefyd yn Hyb y Fenni gyda chefnogaeth Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy. Cafwyd amser stori Cymraeg, a gwybodaeth am wasanaethau a dosbarthiadau Cymraeg yr ardal.

Yn ogystal, crëwyd fideo i hyrwyddo'r diwrnod sydd i'w weld ar [dudalen Facebook Sir Fynwy](#).



## 9. Casgliad

### Llunio Polisi

Yn ystod 22/23 mae'r Cyngor wedi gwella ei'n broses o lunio polisi. Diwygiwyd yr Asesiad Effaith Integredig (AEI), a gynhyrchir i gyd-fynd â phob penderfyniad polisi. Diweddarwyd y nodyn canllaw cysylltiedig hefyd. Cyflwynwyd hyfforddiant i gynghorwyr ym mis Mehefin 2022. Yn ogystal, atgyfnerthwyd y broses sicrhau ansawdd yr holl AEI i sicrhau bod unrhyw gwestiynau heb eu hateb yn cael eu hadolygu cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Caiff y cyfarfodydd sicrhau ansawdd hyn eu cofnodi er mwyn darparu trywydd archwilio.

### Gwefan

Pan nodwyd problemau gyda gwefan MonLife yn ystod gwaith monitro arferol gan Swyddog y Gymraeg, cymerwyd camau i unioni'r materion cyn gynted â phosibl. Gofynnwyd am gyngor gan arbenigwr trydydd parti ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a chyfieithydd. Bu tîm digidol MonLife a'r Swyddog y Gymraeg yn gweithio'n agos gydag ef i sicrhau bod pob agwedd ar y wefan yn cydymffurfio cyn gynted â phosibl a byddai pob diwygiad i'r wefan yn y dyfodol yn cydymffurfio ar adeg ei chreu. Atgoffwyd y tîm hefyd o'n cyfrifoldebau tuag at y Gymraeg fel y nodir yn Safonau'r Gymraeg. Pan dderbyniwyd y gŵyn gan Gomisiynydd y Gymraeg, roedd y camau hyn ei-soes yn cael eu cymryd.

O ganlyniad i faterion a nodwyd ar wefan MonLife, cymerwyd camau i sicrhau bod gwefan Sir Fynwy hefyd yn cydymffurfio. Bu Swyddog y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda Swyddog y Gwefan newydd ei benodi i gyflawni hyn. Cysylltwyd â holl awduron y gwefan a gofynnwyd iddynt adolygu eu tudalennau gwe i sicrhau eu bod i gyd yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg. Mae Swyddog y Gymraeg yn monitro gwefannau'r Cyngor yn rheolaidd a bydd yn creu log manwl o unrhyw faterion a nodwyd a pha gamau a gymerir i unioni'r materion hyn.

### Sianel Teams Cymraeg

Er mwyn gwella cyfathrebu rhwng Swyddog y Gymraeg ac aelodau staff sy'n siarad Cymraeg, crëwyd sianel Teams. Mae hon yn sianel Teams ar gyfer staff o bob gallu yn y Gymraeg, mae pob post a wneir gan Swyddog y Gymraeg yn ddwyieithog. Defnyddir y sianel fel ffordd hawdd i'r Swyddog Gymraeg dosbarthu gwybodaeth bwysig i staff am y cymorth sydd ar gael iddynt yn ogystal â digwyddiadau yn y gymuned leol. Gall staff hefyd ddefnyddio'r sianel fel llwyfan anffurfiol i gael sgwrs yn Gymraeg ac i ddod i adnabod aelodau eraill o staff sy'n siarad Cymraeg.

### Darpariaeth Gymraeg

Ym mis Ionawr 2023 cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i sefydlu trydedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Mai. Mae'r holl wybodaeth am yr ymgynghoriad i'w gweld ar ein gwefan, gan gynnwys yr adroddiad ymgynghori.

Yn y flwyddyn ariannol nesaf bydd gwaith yn cael ei wneud i hybu'r ysgol egin yn Nhrefynwy ac addysg gyfrwng Gymraeg. Mae peth o'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau, megis Miri Mynwy Mehefin a oedd yn ddiwyddiad a wnaed mewn partneriaeth â Menter Iaith BGTM i hybu addysg cyfrwng Cymraeg.

## *Cyrsiau Cymraeg i Staff*

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon 22/23 roedd gennym 32 aelod o staff ar y gofrestr ar gyfer cyrsiau Cymraeg. Mae hyn yn gynnydd ers y llynedd 21/22 pan gofrestrodd 19 aelod o staff cwrs. O'r 32 o gofrestriadau eleni roedd 23 o'r rhain yn cwblhau cyrsiau Mynediad. Wrth symud ymlaen, hoffem weld yr aelodau hyn o staff yn parhau â'u dysgu ac yn cofrestru ar gyfer cyrsiau ar eu lefel nesaf fel eu bod yn gallu aros ar gontinwwm y Gymraeg. Felly, ein nod ar gyfer y flwyddyn nesaf yw trefnu digwyddiadau ac ymgyrchoedd hyrwyddo ar gyfer staff, nid yn unig i annog dysgwyr sy'n ddechreuwyr ond hefyd i annog dysgwyr sydd eisoes wedi cwblhau cwrs i gofrestru ar gyfer eu lefel nesaf o ddysgu. Byddwn hefyd yn anelu at annog aelodau o staff sydd efallai wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg yn y gorffennol, boed hynny yn yr ysgol neu drwy ddulliau dysgu eraill i adeiladu ar eu sgiliau presennol ac i gofrestru am gyrsiau Cymraeg. Mae'r Cyngor yn aml yn ei chael hi'n anodd cyflogi aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg, felly mae'n bwysig ei'n bod yn annog ein haelodau staff presennol i ddysgu'r iaith fel bod ein trigolion yn gallu cael mynediad at wasanaeth Cymraeg effeithiol.